ROBERTS, WILLIAM JOHN ('Gwilym Cowlyd'; 1828 - 1904), bardd, argraffydd, llyfrwerthwr, llyfrbryf, a g r hynod

Enw: William John Roberts
Ffugenw: Gwilym Cowlyd
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1904
Rhiant: John Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, argraffydd, llyfrwerthwr, llyfrbryf, a g r hynod
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Henry Parry Jones

Ganwyd yn Trefriw, Sir Gaernarfon ym 1828, yn fab i John Roberts, Tyddyn Gwilym. Yr oedd yn nai i 'Ieuan Glan Geirionydd.'

Sefydlodd Orsedd Geirionydd (1863) mewn gwrthwynebiad i Orsedd Beirdd Ynys Prydain, a honnai ef oedd yn sefydliad gau. O dan ei lywodraeth ef, fel 'Prif Fardd Pendant,' cynhelid arwest Glan Geirionydd, gwrth-eisteddfod, gyda'i gorsedd ei hun, bob blwyddyn yn yr awyr agored ar lan llyn Geirionydd, ger cartref tybiedig Taliesin Ben Beirdd.

Cyfansoddodd 'Mynyddoedd Eryri' (awdl) a 'Murmuron' (barddoniaeth). Hefyd cyhoeddodd *Bywyd a Gweithiau Ieuan Glan Geirionydd*, *Gweithiau Gethin*, a *Diliau'r Delyn* (hen benillion).

Bu farw ddechrau Rhagfyr 1904 a'i gladdu 8 Rhagfyr ym mynwent eglwys Santes Mair, Llanrwst, sir Ddinbych.

Awdur

Henry Parry Jones

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

E. D. Rowlands, *Dyffryn Conwy a'r Creuddyn* (Lerpwl 1948), 125-8

Owen Williams, *Awduron Sir Ddinbych a'u gweithiau* (1937), 1937

Baner ac Amserau Cymru, 7 a 14 Rhagfyr 1904

Y Geninen, (G yl Dewi), 1907

Y Geninen, Ebrill 1906

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William John Roberts (Gwilym Cowlyd)

Gweithiau

Evan Evans, William John Roberts a Richard Parry ('Gwalchmai') (goln.), *Geirionydd: Cyfansoddiadau Barddorol, Cerddorol, a Rhyddieithol y diweddar Barch. Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd). Wedi eu Casglu a'u Trefnu gan ei Nai, W. J. Roberts, Trefriw, gyda Nodiadau ar ei Fywyd a'i Weithiau Llenyddol* (1862)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW MS 12007B: Llawysgrif 'Gwilym Cowlyd'

Archifau LlGC: NLW MS 12008B: Llyfr barddoniaeth 'Gwilym Cowlyd'

VIAF: 41615893

Wikidata: Q13132359

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu